# **SUT I YMGYSYLLTU Â PHOBL YN 2025 A THU HWNT:** *DIWRNOD ARFER GORAU YMGYSYLLTU Â THENANTIAID*

TPAS CYMRU
You matter | Ti'n cyfri

25 Mehefin, 2025

Gwesty Leonardo, Canol Dinas Caerdydd

# Rhaglen*

## Sut mae Cymru yn newid - Beth allai hyn ei olygu ar gyfer ymgysylltiad?



Clywch y mewnwelediadau diweddaraf gan Rhodri ab Owen, Rheolwr Gyfarwyddwr Camlas. Mae Rhodri yn gweithio i wneud gwleidyddiaeth Cymru yn fwy hygyrch, gan helpu pobl ledled Cymru i ddeall sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud a sut y gallant gymryd rhan.

Yn yr araith gyweirnod amserol hon cyn etholiadau Senedd 2026, bydd Rhodri yn archwilio rhai o'r prif newidiadau sy'n digwydd yn ndemocratiaeth Cymru, a sut y gallai'r datblygiadau hyn effeithio ar gymunedau a pholisi tai ledled Cymru.

Beth allai hyn i gyd ei olygu i ymgysylltiad tenantiaid, y gymuned a dinasyddion?

CAMLAS
Public Affairs I Materion Cyhoeddus

## Y cyd-destun diweddaraf ar gyfer ymgysylltu - Pam mae ymgysylltu mor bwysig?

Nid dim ond gair poblogaidd yw ymgysylltu, dyma asgwrn cefn sector tai gwell. Ymunwch â David ac Eleanor o TPAS Cymru wrth iddynt ddadbacio pam mae ymgysylltu ystyrlon â thenantiaid yn bwysicach nag erioed.

Disgwyliwch y diweddariadau diweddaraf ar bolisïau sy'n dod i'r amlwg, disgwyliadau Llywodraeth Cymru a dulliau ymgysylltu arloesol yng Nghymru - ynghyd â barn fewnol ar yr hyn y mae TPAS Cymru yn ei glywed, yn ei weld, ac yn ei ragweld ar gyfer ymgysylltu.

# What do you need to have in place to make engagement work in 2025 and beyond?

## Trafodaeth Panel:

Yn ystod y sesiwn hon sy'n ysgogi meddwl, byddwch yn clywed gan ein panelwyr gwych ac arbenigol a fydd yn rhannu mewnwelediadau a syniadau. Cadeirydd ein Panel a'n Panelwyr arbenigol fydd:

### Dr.Mena Fombo: Cartrefi Cymoedd Merthyr



Dr. Mena Fombo (Anrh.) yw Pennaeth Diwylliant a Chynhwysiant ynh Nghartrefi Cymoedd Merthyr Valleys Homes, ac mae hi'n angerddol am greu mannau cyfartal lle mae unigolion, timau a chymunedau'n ffynnu.

Mae Mena hefyd yn yn cynnal '*Our Mutual Interest*' – ein podlediad newydd. Mae'n fwy na phodlediad tai yn unig - mae'n lle ar gyfer sgyrsiau ystyrlon gyda'n tenantiaid, cydweithwyr, a'r sector ehangach.

### Caritas Charles- Tpas (Lloegr)



Ar hyn o bryd, mae gan Caritas, sy'n Uwch Reolwr Polisi, Arloesi a Mewnwelediad yn Tpas, dros 20 mlynedd o brofiad yn y sector tai ar lefelau cwsmeriaid a strategol.

### Rachel Brydon



Mae Rachel Brydon yn fentor lle mae ei dull yn seiliedig ar elfennau o wydnwch, grymuso a lles. Bydd hi'n archwilio pwysigrwydd sefydliadau sydd â diwylliant 'diogel i fethu' o ran arloesi ymgysylltu.

### Grŵp Cynghori Tenantiaid yn Nhai Dewis Cyntaf

FCHA Building Independence

Mae Tai Dewis Cyntaf yn darparu cartrefi sy'n cefnogi annibyniaeth ac yn helpu pobl i deimlo'n rhan o gymuned.

Clywch gan staff ac aelod o'u Grŵp Cynghori Tenantiaid am yr hyn sydd wedi newid trwy gyfranogiad tenantiaid, rhannu profiadau bywyd a thrwy gydweithio.

## Ymgysylltu â Lleisiau Ifanc mewn Tai Cymdeithasol - Making It Meaningful

Mae Rachel Brydon yn dod â blynyddoedd o brofiad ymarferol o weithio gyda:



- Cymunedau a thrigolion ar draws lleoliadau amrywiol
- Pobl ifanc 16–24 oed, y mae eu lleisiau'n aml yn cael eu hanwybyddu gan landlordiaid cymdeithasol

Yn y sesiwn yma, bydd Rachel yn:

- Archwilio pam mae lleisiau pobl ifanc yn bwysig mewn penderfyniadau tai a chymunedol
- Rhannu dulliau ymarferol ar gyfer ymgysylltu â phobl ifanc mewn ffyrdd sy'n addas i'w harddulliau cyfathrebu
- Cynnig awgrymiadau i sicrhau bod pobl ifanc yn teimlo eu bod yn cael eu clywed yn wirioneddol - a gwybod bod eu barn yn gwneud gwahaniaeth

## Beth sy'n gwneud 'Fframwaith Cymryd Rhan' weithio?

Grŵp Cynefin
Mwy na thai • More than housing

- Dysgwch am y gwaith ymgysylltu tenantiaid arobryn sy'n digwydd yng Ngrŵp Cynefin.
- Byddwch yn clywed am yr hyn sy'n gwneud eu 'Fframwaith Cymryd Rhan' yn llwyddiant gwirioneddol, gan gynnwys sut maen nhw'n cefnogi ac yn annog pob tenant i gael llais a sut maen nhw wedi bod yn llwyddiannus wrth ddenu tenantiaid i gymryd rhan.
- Gyda Fframwaith newydd yn cael ei ddatblygu, beth yw eu cynlluniau ar gyfer y dyfodol? A pha syniadau ac ysbrydoliaeth allech chi eu cymryd i ffwrdd?

## Arloesedd ymgysylltu yn Lloegr: Dysgu o'r tu hwnt i'r ffin

TENANT ENGAGEMENT EXPERTS
tpas

Mae llawer ohonom yn deall ymgysylltu â thenantiaid yng Nghymru, ond sut olwg sydd arno yn Lloegr? Oes yna syniadau y gallwn eu dysgu? TPAs yw arbenigwyr ymgysylltu â thenantiaid blaenllaw Lloegr. Dysgwch am ddulliau newydd cyffrous sy'n cael eu defnyddio dros y ffin i ymgysylltu â thenantiaid, fel Cynulliadau a democratiaeth ymgynghorol.

## Sut i recriwtio ar gyfer ymgysylltu - sesiwn dysgu a rhannu rhyngweithiol



- A ydych erioed wedi meddwl sut i gael mwy o bobl i gymryd rhan fel bod pob llais yn cael ei glywed ond yn cael hi'n anodd dod o hyd i syniadau?
- Yn arwain y sesiwn gyffrous hon mae ein Partner arbenigol, Sam Evans, a fydd yn tynnu sylw at arfer da ac yn ein harwain wrth rannu syniadau ar sut i wneud y mwyaf o recriwtio tenantiaid ymgysylltiedig yn y sector tai cymdeithasol.
- Hefyd, trafodir sut i gynnal yr ymgysylltiad cychwynnol hwnnw â'r tenantiaid.
- Rhowch eich barn a rhannwch eich syniadau – beth sy'n gweithio **a** beth sydd ddim?!

## 'Siop Siarad': Sut allai'r cysyniad ymgysylltu cyffrous hwn weithio ym maes tai?

*Disgrifir y Siop Siarad fel "siop nad yw'n gwerthu dim a lle mae syniadau, gwybodaeth a sgwrs am ddim".*



- Clywch gan Yvonne Murphy, crëwr Y Siop Siarad a'r Bocs Democratiaeth, sydd wedi bod yn datblygu'r cysyniad hwn ers 2017.
- Darganfyddwch sut mae'r cysyniad arloesol hwn yn defnyddio siop segur i ddarparu gofod cyhoeddus creadigol ar gyfer ymgysylltu.

## Y Symudiad Cymdeithasol: cyrraedd ein cymuned mewn byd sy'n newid

- Mae ymddygiad cymdeithasol yn esblygu'n gyflym, ac felly hefyd y ffordd y mae tenantiaid yn ymgysylltu ar-lein.
- Yn y sesiwn hon, bydd TPAS Cymru yn archwilio'r tueddiadau, yr heriau a'r cyfleoedd diweddaraf mewn cyfathrebu digidol.
- Darganfyddwch beth sy'n newid, beth sy'n gweithio, a sut allwch chi addasu i gyrraedd mwy o denantiaid, yn fwy effeithiol.

*** Noder y gall cynnwys ac amseroedd y rhaglen newid ***